- Mae ysgolion wedi colli hyder yn y gwasanaeth addysg. Rhaid delio â hyn fel mater o frys. Mae'r cwestiwn o gapasiti'n ymwneud, nid yn gymaint â chreu swyddi newydd, ond yn hytrach â chael y sgiliau cywir yn y llefydd priodol. Mae'r "cap" a osodwyd ar gyflogau staff yn rhwystr i ddenu talent o'r ysgolion i'r gwasanaeth a allai helpu yn y cyswllt hwn.
- Mae angen gwell eglurhad o swyddogaeth a disgwyliadau ysgolion a'r gwasanaeth fel na ddisgwylir i'r gwasanaeth gwrdd â gofynion diangen. Mae tuedd i'r gwasanaeth fod y man galw cyntaf ar gyfer llawer o faterion y gellid naill ai eu datrys o fewn yr ysgol neu drwy siarad ag ysgol arall. Dylid gweld yr angen i leihau dibyniaeth ar y gwasanaeth, a hynny yn ei dro yn adeiladu capasiti ysgolion i helpu ei gilydd, fel cam angenrheidiol wrth symud ymlaen.
- Dylai'r gwasanaeth dynnu ar gapasiti ei ysgolion mewn ffordd fwy systematig a rhagweithiol i gefnogi'r dasg o wella ysgolion - gan weithredu mewn partneriaeth gyfartal. Gellid gwneud hyn yn ddefnyddiol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, gwneud defnydd craffach o'r gwahanol grwpiau sy'n cynrychioli ysgolion a rhoi iddynt y dasg o ddatblygu strategaethau a dulliau ar gyfer gwella ysgolion. Yn ail, comisiynu ysgolion i gefnogi a herio ysgolion eraill (e.e. darparu arian i alluogi arweinydd canol o adran fathemateg lwyddiannus i weithio gydag ysgol arall sydd angen cymorth).
- Mae gan staff y gwasanaeth feysydd llafur eang gyda dyletswyddau sy'n amrywio o ran pwysigrwydd a maint. Mae cryn berygl na all staff arbenigo yn eu gwaith o fod ag amrediad mor eang o ddyletswyddau, ac y byddant yn colli golwg ar y prif flaenoriaethau. Mae angen i'r gwasanaeth flaenoriaethu ei swyddogaethau ac adnabod meysydd lle gallai: a) roi heibio'r gwaith yn gyfan gwbl; b) caniatáu i ysgolion arwain gyda dim ond ychydig iawn o gefnogaeth / dim cefnogaeth o gwbl gan y gwasanaeth; neu c) canol corfforaethol y cyngor yn arwain yn llawn (e.e. lle mae gorgyffwrdd â'r swyddogaethau cyllid ac adnoddau dynol pan fo angen mewnbwn arbenigol addysg).
- Gyda'r symud at weithdrefnau rhanbarthol newydd mae dwy risg y mae'n rhaid eu rheoli'n ofalus. Yn gyntaf mae angen i'r cytbwysedd rhwng cefnogaeth a her a ddarperir ar hyn o bryd gan Cynnal barhau dan y model rhanbarthol newydd ar gyfer gwella ysgolion, neu mewn rhyw ffordd arall. Yn ail, rhaid i'r broses o symud i'r trefniadau newydd fod mor esmwyth â phosibl gydag ysgolion yn y tymor byr yn parhau i dderbyn yr un gefnogaeth ansawdd uchel ag a dderbyniant ar hyn o bryd gan Cynnal.

*Cyflymder a brys*

Mae'r ystyriaethau cyflymder a brys yn ymwneud yn gymaint â'r graddau y mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n rhagweithiol (proactive) yn hytrach nag adweithiol (reactive) ag ydyw ynghylch cyflymder gweithredu mesurau'r cynllun. Mae enghreifftiau o'r gwasanaeth addysg yn ymateb i arolygiadau ysgolion ESTYN drwy gyflwyno mesurau cefnogi a herio dwys y dylent fod wedi cael eu cyflwyno'n rhagweithiol ymlaen llaw. Yn aml, ni ymatebir yn gyflym i arwyddion clir gan adael problemau i gyniwair a gori. I ddelio â hyn, teimlwn y gellid cryfhau'r camau gweithredu dan A1 o ran y ffordd y mae'r gwasanaeth yn categoreiddio a monitro ysgolion. Awgrymwn ddatblygu grid sengl yn dangos perfformiad pob ysgol yn erbyn cyfres o ddangosyddion allweddol, gwybodaeth fuddiol arall (e.e. arweinwyr newydd eu dyrchafu), diweddariadau yn dilyn ymwneud diweddar ag ysgolion (e.e. adolygiad addysgu a dysgu) a'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio i gefnogi camau gweithredu. Dylid defnyddio'r grid yn ogystal i werthuso effeithiau ac fel y sail ar gyfer atebolrwydd. Gweithredai fel ffynhonnell wybodaeth sengl i'w chraffu gan arweinwyr o'r cyngor trwodd i'r ysgolion.

*Gwerthuso effeithiau*

Ymarferiad defnyddiol yw darllen pob gweithred a gofyn "sut fyddwn ni'n gwybod?" bod mesur wedi cael ei weithredu'n effeithiol ac wedi cael yr effaith ddisgwyliedig ar ddeilliannau. Mae'r cynllun yn ceisio diffinio llwyddiant, ond dylid gwneud hynny'n fwy cyson ar draws pob cam gweithredu. Hefyd, yn dilyn ymlaen o'r pwynt uchod ynglŷn â chyflymder a brys, mae llawer o'r mesurau llwyddiant yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad blynyddol. Yn dilyn ein sylwadau dechreuol ynghylch ffocws ar bob dysgwr, teimlwn y dylai'r awdurdod fedru defnyddio data cynnydd disgyblion i dracio'n dymhorol eu cynnydd yn yr ysgolion fel y gellir gwerthuso effeithiau wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Mae ysgolion eisoes yn defnyddio data o'r fath, felly mater ydyw o goladu ystadegau sy'n bodoli – tasg a ddylai fod yn gymharol syml. Byddai'r data hwn wedyn yn sylfaen i'r grid a grybwyllwyd uchod ac yn bwydo mewn i'r broses o sicrhau atebolrwydd cadarnach.

*Atebolrwydd*

Mae dau brif fater mewn perthynas ag atebolrwydd. Yn gyntaf, rhaid bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am y polisi neu'r agwedd benodol o'r gwasanaeth dan sylw. Yn aml mae hyn yn aneglur gan fod gan unigolion o fewn y gwasanaeth amrediad mor eang o ddyletswyddau sydd yn aml yn gorgyffwrdd. Yr ail yw gofalu y caiff y mesurau eu dilyn i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu yn ôl yr amserlen a bod yr effeithiau yn cael eu gwerthuso. Credwn y byddai'r camau a awgrymwyd mewn perthynas â datblygu'r grid, wedi ei atgyfnerthu gan ddata tymhorol am gynnydd disgyblion a defnydd cyson o'r wybodaeth ar draws y fforymau, yn cryfhau atebolrwydd.

*Strategaeth dymor hir*

Mae'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad, yn hollol gywir, yn mynd i'r afael â materion brys. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol trafod y rhain gyda'r ysgolion a phartneriaid eraill yng nghyd-destun gweledigaeth addysg dymor hir Ynys Môn. Byddai hyn hefyd o gymorth i ddelio â rhai o'r materion strategol a godwyd gan ESTYN. Credwn y dylai'r drafodaeth hon ynghylch natur system addysg Môn ymhen pum mlynedd symud yn gyflym tuag ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Sut y gellir dirprwyo rhagor o adnoddau i ysgolion mewn ffordd sydd mewn gwirionedd yn grymuso ysgolion a rhoi iddynt fwy o lais yn y modd y defnyddiant yr adnoddau hynny?
- Sut y gall ysgolion gynnig mwy o gefnogaeth i'w gilydd a bod yn llai dibynnol ar wasanaethau awdurdod lleol neu ranbarthol?
- Pa atebion dyfeisgar fyddai'n arwain at well cytbwysedd rhwng lleihau cost cynnal ysgolion bach a sicrhau fod gan gymunedau fynediad lleol at ddarpariaethau?
- Gyda llawer o arweinwyr presennol ysgolion yn nesáu at ymddeol o fewn y pum mlynedd nesaf, sut ydym yn buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o arweinwyr, a pha fodelau gwahanol ddylem eu hystyried ar gyfer llywodraethiad ysgolion (e.e. ffederasiynau)?

Atodiad 4

## Adolygu Cynllun Gweithredu Ol-arolygiad Ynys Môn

Ym Mai 2012 cyhoeddodd Estyn eu hadroddiad yn dilyn arolygiad o ansawdd gwasanaethau awdurdod lleol Ynys Môn i blant a phobl ifanc. Dywedodd yr adroddiad fod gwasanaethau'n anfoddhaol a bod y gallu i wella'n anfoddhaol. Amlygwyd nifer o bryderon gan Estyn:

- bod safonau ar gyfer plant a phobl ifanc islaw'r hyn y gellid ei ddisgwyl ym mhob cyfnod allweddol;
- bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn annerbyniol o isel;
- bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn annigonol;
- nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud i gynllunio ar gyfer lleoedd mewn ysgolion;
- nad yw arweinyddiaeth weithredol wrth gyflwyno addysg wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd o danberfformio, ac nid yw ysgolion a swyddogion wedi cael eu dwyn i gyfrif; ac
- nid yw prosesau cynllunio busnes ac asesu risg wedi bod yn ddigon trylwyr i nodi a mynd i'r afael ag arafwch y cynnydd mewn gwasanaethau addysg ac ysgolion.

Nodwyd saith maes allweddol y dylai'r awdurdod ganolbwyntio arnynt:

- Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr a all wneud hynny gyflawni llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- Cynllunio'n fwy effeithiol gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion;
- Sefydlu prosesau cadarn ar gyfer cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risg i broffesiynoli cyflwyno gwasanaethau addysg yn weithredol;
- Cynllunio effeithlonrwydd gwell wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes;
- Sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb yn y gofynion ar gyfer hunan-arfarnu yn weithredol ac yn strategol;
- Cymryd camau i leihau nifer y lleoedd dros ben; a
- Ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion.

Wrth wraidd yr argymhellion hyn yr oedd cyfres o themâu allweddol:

Yn gyntaf, nid oedd y Cyngor yn canolbwyntio ar y modd y mae'n dadansoddi, defnyddio a rhannu'r data a fedda i adnabod effeithiau, cynllunio'n strategol, canolbwyntio adnoddau, cefnogi gwelliannau cyfredol a dal nhw eu hunain ac eraill i gyfrif.

Yn ail, mae diffyg dealltwriaeth ymhlith ysgolion ac eraill o'r pethau y maent yn atebol drostynt a'u swyddogaethau, a'r modd y maent yn bwydo mewn i'r darlun mawr mewn perthynas â gwella ysgolion.

Yn drydydd, mae cnewyllyn arwyddocaol o ysgolion a materion addysg lle na wneir cynnydd neu lle nad yw cynnydd yn digwydd yn ddigon cyflym.

I grynhoi, un o themâu creiddiol yr adroddiad oedd bod newid yn dechrau cael ei weld mewn rhai meysydd ond bod hynny'n digwydd yn rhy araf. Nid oedd yr

awdurdod yn llwyddo i gyfannu'r cylch rheoli perfformiad (cysylltu data â chanlyniadau).

Mae'n eglur bod angen newid sylfaenol yn y cynnydd a gyflawnir. Mewn perthynas â gwella ysgolion mae'n allweddol bwysig bod Ynys Môn yn dangos medr i fynd i'r afael go iawn â'r sefyllfa, sicrhau gwelliannau cyflym ac adeiladu hyder yng ngallu'r sir i wneud hynny. Mae gan Ynys Môn ei chynlluniau uchelgeisiol ei hun ar gyfer newid ac, yn arbennig, ar gyfer defnyddio technoleg i ddarparu ysgolion ac addysg 21ain Ganrif. Yn y cyswllt hwn, y cwestiynau allweddol i Ynys Môn fydd:

- Sut mae dyrchafu golygon o ganolbwyntio ar wella cynllunio i sefyllfa a fydd yn galluogi newid ar draws y system gyfan?
- Sut mae cynyddu dyheadau pawb ym Môn a chreu diwylliant o berfformiad uchel?
- Sut mae sicrhau fod y newidiadau'n goroesi a gwreiddio mewn perthynas â sialensau a fu'n bodoli ers amser maith?

Mae'r cwestiynau yma'n amlygu pwysigrwydd arweinyddiaeth a'r angen i ysgolion a gwasanaethau ieuenctid Môn, a'r awdurdod lleol, ddilyn llwybr o newid wrth symud ymlaen i'r dyfodol. Yn ogystal â phrosesau, cynlluniau gweithredu a systemau newydd bydd angen arweiniad wedi ei ffocysu a newid diwylliant.

Mae ein hadolygiad o'r cynllun gwella Perfformiad, gan hynny, yn canolbwyntio ar y mater allweddol o sicrhau newid cynaliadwy. Mae'n tynnu ar ein profiad a'n gwaith ar draws cannoedd o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn y meysydd cefnogi newid, effeithiolrwydd trefniadau a systemau a chyflawniad strategol. Mae hefyd yn elwa o'n profiad penodol mewn ysgolion, adrannau addysg awdurdodau lleol ac asiantaethau addysg cenedlaethol. Ac mae'n tynnu ar ein dealltwriaeth o'r syniadau a'r arferion gorau ar gyfer cyflawni gwelliannau a newid mewn ysgolion unigol ac mewn systemau ysgol. Nid ydyw'n mynegi barn nac yn cynghori ynghylch strategaethau addysg penodol, e.e. strategaethau cynhwysiad neu ymyriadau cwricwlwm.

Ysgrifennwyd llawer ynghylch sut i newid systemau yn y maes addysg. Un fframwaith sylfaenol ar gyfer yr adolygiad hwn yw syniadau un o feddylwyr a diwygwyr allweddol y maes addysg: Michael Fullen. Gan dynnu ar brofiad blynyddoedd lawer o ymchwil mae Fullen yn nodi saith maes allweddol os am newid systemau:

1. Mae pob plentyn yn medru dysgu
2. Cael nifer fach o flaenoriaethau allweddol
3. Arweiniad penderfynol / glynu'n glos wrth y neges
4. Capasiti torfol
5. Strategaethau wedi eu diffinio'n fanwl
6. Atebolrwydd deallus
7. "Pawb" yn golygu pawb.

*(Michael Fullen, The big ideas behind whole system reform, 2010)*

**Adolygu'r Cynllun Gweithredu Ôl Arolygiad**

Mae'r Cynllun Gweithredu Ôl Arolygiad yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Estyn yn eu saith argymhelliad. Gellir crynhoi'r cynnwys fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Targedu cefnogaeth<br><br>➢ Cefnogaeth wedi ei dargedu'n glir at yr ysgolion gyda'r angen mwyaf<br>➢ Ail ymweld â strategaethau mewn meysydd blaenoriaeth, eu hail ddatblygu a'u diwygio | Cryfhau atebolrwydd<br><br>➢ Diwygio cytundebau partneriaeth ac ail gadarnhau atebolrwydd pawb<br>➢ Gwella systemau rheoli perfformiad, yn cynnwys proffiliau ysgol, gwneud defnydd mwy egnïol o ddata, ymgysylltu ag aelodau, llywodraethwyr etc.<br>➢ Gwreiddio prosesau hunan werthuso<br>➢ Ffocws cryfach ar osod targedau mewn ysgolion<br>➢ Cynlluniau gweithredu'n bodoli ym mhob ysgol ar gyfer meysydd allweddol. |
| Datblygu medrau addysgu<br><br>➢ Deunyddiau'n arddangos yr arferion gorau<br>➢ Parhau i ddefnyddio cymunedau dysgu proffesiynol<br>➢ Datblygu sgiliau athrawon mewn meysydd blaenoriaeth, e.e. llythrennedd | Cynllunio / darparu adnoddau strategol<br><br>➢ Cynlluniau corfforaethol i ddelio â materion megis darparu adnoddau i ysgolion<br>➢ Cynllun newydd ar gyfer Gwella Penaethiaid Ysgol a Chynllun Datblygu Trefniadaeth Gorfforaethol<br>➢ Gwell defnydd o ddata i gynllunio'n strategol, e.e. cyllido llefydd nas cynhelir |

Mae amrediad y cynllun yn gynhwysfawr ac mae'n canolbwyntio ar y camau allweddol i ddatblygu polisïau a fframweithiau a fydd yn cefnogi newid. Yn anochel, fodd bynnag, yn yr adolygiad hwn mae ffocws ein sylwadau ar y rhannau hynny o'r cynllun y teimlwn y gellid eu cryfhau.

Nodwn hefyd ein bod yn sylweddoli mai dogfen fewnol yw hon wedi ei chynllunio ar gyfer Estyn. Serch hynny, mae'n bwysig gweld y cynllun yn ogystal fel datganiad o fwriad a'r fframwaith allweddol y mesurir llwyddiant y Gyfarwyddiaeth yn ei herbyn. Ac felly, mae llawer o'r pethau a amlygwn yn ymwneud nid yn gymaint â'r gyfres o dasgau a adnabuwyd fel rhai pwysig, eithr yn ymwneud mwy â'r fframwaith a'r egwyddorion strategol ehangach y maent yn ffurfio rhan ohonynt a'r gwaith

angenrheidiol i alluogi newid i ddigwydd. Efallai nad yw'n briodol eu cynnwys yma, ond y mae'r ystyriaethau hyn yn allweddol serch hynny ac mae angen eu lleisio, eu cyfathrebu a'u hymgorffori mewn camau gweithredu yn rhywle arall.

Yr achosion sylfaenol

Mae'r cynllun gweithredu'n ymateb yn llawn i argymhellion Estyn ac yn dadansoddi tueddiadau yn erbyn meysydd targed allweddol. Fodd bynnag, byddai'r cynllun yn cael ei gryfhau drwy gyfleu ymdeimlad clir o ddadansoddiad annibynnol o'r data perthnasol i faterion a meysydd allweddol ac, yn wir, yr hyn sy'n bosibl yn nhermau newid. Rhoddai hyn hyder fod yr awdurdod wedi deall achosion sylfaenol y materion dan sylw a'i fod yn canolbwyntio'i egni ac adnoddau ar y meysydd hynny lle ceir yr effaith fwyaf. Byddai hefyd yn dechrau modelu ffordd fwy strategol o ddefnyddio data fel y mae adroddiad Estyn yn ei ddeisyf.

Ffocws strategol

Mae'r weledigaeth ar gyfer Ynys Môn wedi ei chynnwys yn Atodiad 2 ond nid oes fframwaith trosolwg (overarching) yn cwmpasu pob un o'r gweithgareddau arfaethedig. Byddai o gymorth i osod allan y bwriad strategol a dangos sut y bydd pob elfen o'r cynllun gwella yn cydblethu a gwireddu canlyniadau. Heb fframwaith o'r fath, a mynegiant clir o'r materion allweddol cyfredol, mae perygl y bydd "cyfanswm" y gweithgareddau'n syrthio'n brin o'r canlyniadau angenrheidiol.

Yr Arferion Gorau: Beth sy'n gweithio?

Mae ein hymchwil a phrofiad yn y maes gwella addysg yn rhoi inni sylfaen gadarn o dystiolaeth o'r pethau sy'n gweithio wrth geisio gwella systemau addysg.

- Mae ffocws yn allweddol – nifer fach o flaenoriaethau, yn cael eu cyfathrebu'n barhaus, wedi eu gwreiddio ym mhob dim a chael eu cefnogi gan ymgyrchoedd wedi eu targedu a'u gwerthuso.

- Mae diwylliant yn cyfrif – ni fydd targedau'n arwain at lwyddiant os nad oes dyheadau uchel gan bawb cysylltiedig, o'r tîm gwella addysg i'r ysgolion a'r athrawon. Mae'n ymwneud â chredu *bod* safonau uwch mor bosibl â'r egwyddorion trefniadol sy'n bwydo a chyfarwyddo pob gweithgaredd.

"Cyfeiriodd un pennaeth at "ddiffyg teimlad o frys" mewn perthynas â gwella canlyniadau a diffyg perchnogaeth gyffredinol dros y mater tu hwnt i'r meysydd craidd. Mae hyn wedyn yn dod yn rhan o'r "newid diwylliant" angenrheidiol i newidiadau ddigwydd. Dywedodd un pennaeth mai rhan fawr o'u llwyddiant i wella oedd newid eu hethos i "rwy'n medru gwneud" ac agwedd "peidiwch byth â rhoi'r gorau iddi". Cyfeiriodd pennaeth arall at y neges seicolegol os yw staff yn fodlon mynd allan o'u ffordd i helpu pawb i lwyddo a chynyddu dyheadau a hyder."

Adroddiad Coleg Cenedlaethol ar wella ysgolion:
(http://www.nationalcollege.org.uk/docinfo?id=149410&filename=sustainable-strategies-for-school-improvementfull- report.pdf)

- Rhaid bwydo ac adeiladu cred drwy ddarparu enghreifftiau o ymarfer ac enillion cyflym sy'n tyfu fel caseg eira a sbarduno momentwm
- Mae'n hanfodol cael ffocws ar wella addysgu a dysgu ac adeiladu capasiti torfol.

Yn absenoldeb y fframwaith trefniadol hwn mae'n anodd adrodd stori gref am yr angen i newid mewn ffordd sy'n sbarduno pobl eraill ac yn ddealladwy iddynt - yn arbennig ymgysylltu ag ysgolion mewn ffordd sy'n canolbwyntio eu hynni ar y pethau iawn a chreu ymdeimlad o optimistiaeth.

Yn ail, i atgyfnerthu'r fframwaith strategol glir, awgrymwn eich bod yn rhannu gweithgareddau'n gyfnodau gwaith eglur. Byddai hyn yn galluogi eich rhanddeiliaid nid yn unig i ddeall cyfeiriad y daith ond hefyd i deimlo'n rhan o'r cynnydd. Heb strwythur o'r fath, mae perygl y bydd y drefn lywodraethol yn canolbwyntio'n ormodol ar bob manylyn unigol gan golli golwg ar ddarlun ehangach y newid. Bydd ystyried y modd yr ymgorfforwch ddangosyddion unigol yn y ffordd y mynegwch gynnydd yn erbyn cyfeiriad y darlun cyfan yn elfen allweddol o'r gwaith sy'n cael ei gynllunio ar brosesau rheoli perfformiad (fel y cânt eu mynegi yn y cynllun Trawsnewid Corfforaethol). Felly hefyd yr angen i sicrhau eich bod yn ystyried dangosyddion galluogi (enabling indicators) a fydd caniatáu ichi ddeall y cyfeiriad yr ydych yn teithio iddo. Diau y bydd yn bwysig gweithredu dull cerdyn sgorio cytbwys sy'n rhoi sylw i elfen "pobl" y newid arfaethedig.

Yn olaf, byddai gweithredu fesul cyfnod yn caniatáu ichi gofnodi cynnydd yn fwy eglur a dathlu a hyrwyddo enillion cyflym yn erbyn llwybr eglur tuag at newid.

Egwyddorion newid – yr elfen "sut"

Mae'r cynllun yn datgan yn glir y gweithgareddau disgwyliedig ond mae'n llai amlwg "sut" y cyflawnir y pethau hyn a beth yw swyddogaethau cymharol y Gyfarwyddiaeth, y tîm gwella ysgolion a'r gymuned ysgolion. Bydd llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar ailddiffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau'n ddiamwys. Nodwn eich camau i ailddiffinio'r cytundeb partneriaeth a'r fframwaith rheoli perfformiad. Mae'r broses o wella yn siwrnai o newid a bydd raid rhoi sylw gwirioneddol i'r modd yr ymgysylltir ag arweinyddion, athrawon a staff yr awdurdod mewn perthynas â newid, delio â'r elfennau diwylliannol a dyheadol sy'n rhwystrau yn y ffordd a newid dulliau gwaith er mwyn gwireddu strategaethau a phrosesau newydd. Mewn geiriau eraill, mae datblygu strategaethau a deunydd cwricwlaidd neu fframweithiau atebolrwydd oll yn elfennau allweddol o sicrhau gwelliannau, ond mae "sut" y gwneir hynny cyn bwysiced bob tamaid. Fel y dywedodd un o'r meddylwyr mwyaf blaengar yn y maes rheoli newid:

*"Mae strategaeth fuddugol yn cyfuno nodau dadansoddol gadarn ac uchelgeisiol gyda dulliau sy'n helpu pobl i brofi nodau newydd - nodau sy'n aml yn uchelgeisiol iawn, yn gyffrous, yn ystyrlon a dyrchafol – gan greu penderfyniad dwfn i symud a gwneud iddo ddigwydd."*

*Kotter (2008)*

Mae hyn yn rhannu'n nifer o wahanol agweddau:

Yn fewnol yn yr adran:

- Mae adroddiad Estyn yn gofyn am newid sylfaenol yn y gwasanaeth a roddir gan y tîm. Mae'n cynnig cyfle nid yn unig ar gyfer arferion a gweithdrefnau newydd ond hefyd ffocws newydd wrth symud ymlaen. Yn ein barn ni, byddai'n anodd i'r adran ymgysylltu ag ysgolion mewn perthynas â newid heb yn gyntaf edrych yn fewnol arni hi ei hun a sicrhau aliniad o amgylch y weledigaeth a'r dyhead i newid. Diau fod llawer yn teimlo briwiau digwyddiadau diweddar ac mae her wirioneddol mewn ymrwymo a chymell y tîm yn y cyswllt hwn a symud y ffocws o 'done to'. Unwaith eto mae hyn yn golygu camu'n ôl oddi wrth fanylion y dasg ar y gweill a mewnoli'r darlun cyfan. Yn ei hanfod, wrth ichi gyflwyno systemau a phrosesau rheoli perfformiad newydd, mae'n allweddol sylweddoli pwysigrwydd elfennau "dynol" y newid hwn.

- Cam elfennol yn y broses fydd cynorthwyo eich tîm i ddeall eu swyddogaethau yn cefnogi gwelliannau a lle y dylent ganolbwyntio eu hamser a'u hegni yn y dyfodol. Yn arbennig, ystyriwch sut y gallwch eu cynorthwyo i edrych o'r newydd ar y pethau a wnânt a'u swyddogaeth wrth geisio cytbwysedd rhwng atebolrwydd a galluogi?

- O gofio ffocws y tîm wrth symud ymlaen, mae'n bwysig gofyn pa swyddogaethau a galluoedd yr ydych eu hangen mewn tîm gyda ffocws o'r fath i'r dyfodol. Ymddengys yn berthnasol inni ofyn sut fyddwch yn galluogi eich timau i gynnal y drafodaeth anodd hon?

Deallwn y delir â'r cwestiynau hyn gan y cynllun Trawsnewid corfforaethol sy'n cael ei gwblhau. Mae'n bwysig gofalu fod yr elfennau yma'n cael eu gweld fel "galluogwyr" allweddol wrth gael y maen i'r wal o fewn y Gyfarwyddiaeth yn y dyfodol.

Yn allanol gyda'r ysgolion:

- Fel y dywedodd tîm y Gyfarwyddiaeth eu hunain – yr allwedd i lwyddiant fydd ymgysylltu â'r ysgolion. Rhaid rhoi sylw gofalus i'r "stori" a gyflwynir iddynt a sut y bwriadwch gael yr ysgolion i rannu eich dyheadau ar gyfer newid.

- Mae rhai cwestiynau penodol ynghylch sut y byddwch yn ymgysylltu a chael athrawon i fod yn rhan o'r broses o ailymweld â strategaethau a deunydd cwricwlwm yn unol â'r blaenoriaethau, a gwella addysgu.

- Yn ehangach, mae pryd i gyfarwyddo a phryd i ymgynghori yn ystyriaeth allweddol. Bydd yr ateb yn dibynnu ar y diwylliant y dymunwch ei greu ac ar allu unigolion o fewn y system. Er enghraifft, mae'n debyg y byddwch angen delio ag ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd mewn ffyrdd gwahanol i'w gilydd. Nid yw'r cynllun yn dangos yn glir pa fecanweithiau gwahanol sy'n angenrheidiol mewn gwahanol sefyllfaoedd.

- Yn olaf, sut fyddwch yn teilwra eich cefnogaeth ddatblygu yn unol â'r blaenoriaethau a sicrhau fod y gefnogaeth a roddir i arweinyddiaeth a datblygiad yn cyd-fynd â'r newidiadau angenrheidiol? Yn ein profiad ni, mae arweinwyr canol yn chwaraewyr allweddol yn y broses newid yn ogystal â phenaethiaid.

Ymddengys bod yr awdurdod wedi gwneud peth gwaith da, yn adeiladu ar yr arferion gorau, wrth gael athrawon ac arweinwyr i ymwneud â gwella addysgu a dysgu drwy gefnogaeth cymheiriaid a gwelliant parhaus, e.e. cymunedau dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn dweud beth yw'r bwriadau ar gyfer gweithio gydag ysgolion, a thrwyddynt, i gyflawni newid cynaliadwy a symud ffocws yr atebolrwydd i'r ysgolion. Mae atebolrwydd yn "yrrwr" allweddol ac yn thema amlwg yn adroddiad Estyn. Yr her i Ynys Môn fydd sicrhau atebolrwydd ac osgoi beio.

Ysgolion cynradd

Ym Môn mae tua 50 o ysgolion cynradd bach. Nhw yw un o'r sialensau allweddol wrth geisio galluogi gwelliant. Mae nifer fach y staff, y cyfleoedd cyfyngedig i ymwneud â dysgu ehangach a'r angen i benaethiaid hefyd addysgu dosbarthiadau, yn faterion sydd angen sylw gofalus o ran y gofynion ymgysylltu a chefnogi.

Sylweddolwn nad yw'r Gyfarwyddiaeth yn ffafrio'r dull ffederaleiddio. Serch hynny, yn ein barn ni fe ddylid ystyried anghenion penodol ysgolion cynradd a'r opsiynau ar gyfer darparu adnoddau ar draws yr ysgolion yn wyneb eu maint a'u niferoedd. Ar hyn o bryd, nid yw'r cynllun yn cynnig strategaeth wahaniaethol amlwg ar gyfer ysgolion.

Cyd-fynd â'r darlun corfforaethol

Gwyddom fod yr awdurdod yn ymgymryd â rhaglen trawsnewid mewnol a bod nifer o ymgyrchoedd mewnol i dderbyn sylw o fewn y rhaglen honno. Mae'n bwysig fod y rhaglen yn cael ei chydlynu a'i blaenoriaethu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â chynllun gwella'r gyfarwyddiaeth. Yn arbennig, bydd y Strategaeth Datblygu Trefniadaeth yn allweddol i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol ym Môn.

Crynodeb o'r argymhellion:

- Gosod y cynllun yn amlycach o fewn fframwaith strategol gan ganolbwyntio ar eich gweledigaeth ar gyfer addysg ym Môn a chynyddu dyheadau.
- Darparu dadansoddiad o achosion sylfaenol y materion allweddol i ddangos fod y ffocws ar y mannau cywir a phrosiectau realistig i sicrhau newid.
- Rhannu'r rhaglen waith yn gyfnodau gweithredu amlycach.
- Datblygu cynllun ymgysylltu clir a gwneud yn gliriach sut y bwriadwch weithio gydag ysgolion.
- Gweithio gyda thîm y Gyfarwyddiaeth i sicrhau "prynu mewn" i'r weledigaeth ar gyfer newid, eglurder ynghylch swyddogaethau ac uwch-sgilio lle bo angen.